Rhif: **WG22060**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cymru Ddi-dipio – Ein strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon

Dyddiad cyhoeddi: **Chwefror 2015**

ISBN digidol 978 1 4734 2968 0
© Hawlfraint y Goron 2015
WG22060

Crynodeb o'r ymgynghoriad (Cam 2) 'Cymru Ddi-dipio'

Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Trosolwg o'r ymatebion

3 Crynodeb gweithredol

4 Dadansoddiad o'r ymatebion

Cwestiwn 1 - Ydych chi'n credu y bydd y strategaeth hon yn helpu i daclo tipio anghyfreithlon yng Nghymru?

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno â'r camau a gynigir o dan bob adran o'r strategaeth?

Cwestiwn 3 – A oes gennych unrhyw gamau pellach yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys a pham?

Cwestiwn 4 – A oes gennych sylwadau pellach ar sut y gellir cyflawni'r deilliannau?

Cwestiwn 5 – A hoffech chi gymryd rhan yn y gweithgorau i helpu i gyflawni'r camau sydd eu hangen er mwyn cyrraedd y deilliannau?

5 Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf

6 Atodiadau

1 Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad

2 Tabl yn crynhoi'r Ymatebion

Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad ‘Cymru Ddi-dipio’

1 Cyflwyniad

Bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar strategaeth ddrafft "Cymru Ddi-dipio", sy’n ceisio cynorthwyo'r gwaith o lunio'r cam nesaf er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod gwir angen cydweithio er mwyn mynd i'r afael ag achosion o dipio anghyfreithlon. Credwn fod gennym gyfle i osod esiampl wrth fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn effeithiol. Rydym eisiau cydweithio â rhanddeiliaid i lunio a chyflawni camau gweithredu'r dyfodol gyda'n gilydd. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 3 Mehefin 2014 a 29 Awst 2014. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar ein gwefan.

Gosododd yr ymgynghoriad ein gweledigaeth newydd ar gyfer:

‘Dyfodol i Gymru heb y niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol annerbyniol a achosir gan dipio anghyfreithlon. Dyfodol lle byddwn i gyd yn cydweithio i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ein gwastraff ac ymfalchïo yn ein cymunedau.'

Nododd yr ymgynghoriad rai canlyniadau lefel uchel a bydd hynny'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pob sefydliad allweddol yng Nghymru yn ymrwymo i ddileu tipio anghyfreithlon, ymrwymiad sy'n rhan annatod o'u strategaethau a'u gwaith o ddydd i ddydd;
- dealltwriaeth eang bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol mewn cymdeithas;
- haws i bobl ddelio â'u gwastraff mewn ffordd gyfrifol;
- unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael ei ddal a'i gosbi'n briodol.

2 Trosolwg o'r ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 28 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Isod, ceir dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl sector. Rhestrir y sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1.

Categori'r Ymatebwyr	**Nifer yr Ymatebwyr**
Unigolyn Preifat (P)	2
Awdurdod Lleol (ALl)	8
Cymdeithas Dai (CD)	3
Corff Proffesiynol (CP)	1
Corff Cyhoeddus (CC)	9
Undeb (U)	1
Trydydd Sector (TS)	1
Sector Preifat (SP)	1
Cynghorau Tref a Chymuned (CTC)	2

Gofynnwyd i randdeiliaid ateb y cwestiynau canlynol.

Cwestiwn 1 - Ydych chi'n credu y bydd y strategaeth hon yn helpu i daclo tipio anghyfreithlon yng Nghymru?

Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno â'r camau a gynigir o dan bob adran o'r strategaeth?

Cwestiwn 3 – A oes gennych unrhyw gamau pellach yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys a pham?

Cwestiwn 4 – A oes gennych sylwadau pellach ar sut y gellir cyflawni'r deilliannau?

Cwestiwn 5 - A hoffech chi gymryd rhan yn y gweithgorau i helpu i gyflawni'r camau sydd eu hangen er mwyn cyrraedd y deilliannau?

Isod, ceir dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyfer pob cwestiwn. Dim ond yr ymatebion a oedd yn ateb y cwestiwn yn uniongyrchol sydd wedi'u cynnwys yn y ffigurau yma. Os nad oedd rhanddeiliaid wedi ateb cwestiwn penodol; os oeddent wedi nodi nad oedd ganddynt sylwadau i'w gwneud ar y cwestiwn; neu os nad oedd yn glir os oeddent yn cefnogi'r cynnig ai peidio; nid yw'r ymatebion hynny wedi'u cynnwys yn y ffigurau. Hefyd, ceir crynodeb o'r prif faterion a gafodd eu codi gan yr ymatebwyr ar gyfer pob cwestiwn a, lle y bo'n briodol, rhestr o'r pwyntiau ychwanegol a godwyd.

Gweler Atodiad 2 i gael crynodeb o sylwadau'r ymatebwyr.

3 Crynodeb Gweithredol

Cafwyd 28 o ymatebion i ail gam ymgynghoriad "Cymru Ddi-dipio". O'r rhai a gyflwynodd ymateb uniongyrchol, roedd 89% yn cytuno y byddai'r strategaeth o gymorth i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yng Nghymru ac yn cymeradwyo'r weledigaeth i gael:

Dyfodol i Gymru heb y niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol annerbyniol a achosir gan dipio anghyfreithlon. Dyfodol lle byddwn i gyd yn cydweithio i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ein gwastraff ac ymfalchïo yn ein cymunedau.

Roedd pawb yn gytûn bod tipio anghyfreithlon yn broblem yng Nghymru ar hyn o bryd. Cafodd y canlyniadau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad eu cymeradwyo'n gyffredinol, gyda 89% yn cytuno â'r camau gweithredu arfaethedig.

Yn gyffredinol roedd yr ymatebion yn cefnogi'r camau gweithredu arfaethedig yn y strategaeth ddrafft ac awgrymwyd ychydig o gamau gweithredu eraill. Y cam gweithredu mwyaf cyffredin y rhoddwyd sylw iddo gan yr ymatebwyr oedd yr angen i sicrhau bod ymchwilio i dipio anghyfreithlon yn dod yn ddyletswydd statudol.

Mynegodd 79% o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad y byddent yn hapus i gymryd rhan yn y gweithgorau ar dipio.

4 Dadansoddiad o'r Ymatebion

Cwestiwn 1 - Ydych chi'n credu y bydd y strategaeth hon yn helpu i daclo tipio anghyfreithlon yng Nghymru?

Trosolwg

O'r 28 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, roedd 27 o'r ymatebion yn ateb cwestiwn 1 yn uniongyrchol. Roedd 25 o'r rhain yn cytuno y byddai'r strategaeth hon yn helpu i daclo tipio anghyfreithlon yng Nghymru.

Roedd yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â hynny yn codi amheuon ynghylch ffigurau *Flycapture*. Mae'r ffigurau hynny'n dangos bod achosion o dipio anghyfreithlon yng Nghymru yn gostwng bob blwyddyn.

Roedd yr ymatebion cefnogol yn croesawu'r uchelgais a'r ymrwymiad cadarn i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Roedd y rhan fwyaf yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafwyd sylwadau gan nifer o'r ymatebwyr ynghylch yr hinsawdd economaidd anodd sydd ohoni a'r effaith y mae hynny yn ei gael ar allu'r awdurdodau lleol i roi sylw i'r mater. Er mwyn i'r strategaeth gael ei gweithredu'n llawn nododd mwyafrif yr ymatebwyr y byddai angen sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael.

Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno â'r camau a gynigir o dan bob adran o'r strategaeth?

Trosolwg

Roedd 25 o'r ymatebwyr yn cytuno'n fras gyda'r camau gweithredu arfaethedig sydd yn y strategaeth. Fodd bynnag, roedd 18 o'r 25 ymateb uniongyrchol yn teimlo ei fod yn bwysig dyrannu adnoddau ar gyfer y camau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni.

Cwestiwn 3 – A oes gennych unrhyw gamau pellach yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys a pham?

Trosolwg

Cafwyd 28 o ymatebion uniongyrchol i'r cwestiwn hwn. Roedd pob un ohonynt yn cytuno bod tipio anghyfreithlon yn broblem yng Nghymru. Roedd nifer o'r ymatebion

naill ai'n ail-drodd y camau gweithredu drafft sy'n bodoli eisoes neu'n ymhelaethu arnynt. Isod, ceir crynodeb o'r sylwadau a gafwyd:

Adrodd

Rhoddwyd sylw i'r cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth gronfa ddata bresennol *Flycapture*. Soniodd sawl un o'r ymatebwyr am yr angen i gael data o ansawdd gwell ar dipio anghyfreithlon yn enwedig ar dir preifat. Hefyd, cafwyd argymhelliad y dylid cynnwys ystadegau ar achosion o dipio anghyfreithlon ar dir y mae'r cymdeithasau tai yn berchen arnynt yn ystadegau presennol *Flycapture.* Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai tir preifat gael ei gynnwys ym menter *FlyMapper*.

Nododd nifer o'r ymatebwyr y dylid rhoi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd ac i fusnesau am y modd y dylent roi gwybod am achosion o dipio anghyfreithlon. Cafwyd argymhelliad y dylid hyrwyddo llinell gymorth Cyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd cafwyd argymhelliad yn nodi y dylid lansio ymgyrch i annog y cyhoedd i gadw eu llygaid a'u clustiau ar agor gan roi gwybod am achosion.

Roedd pobl yn teimlo y dylai nifer yr ymchwiliadau i achosion o dipio anghyfreithlon a'r erlyniadau gael eu hasesu a'u monitro'n rheolaidd, ac y dylid cyflwyno dangosyddion perfformiad ystyrlon.

Tir Preifat

Soniodd nifer o'r ymatebwyr am yr anhawster o fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar dir preifat. Roeddent yn teimlo y dylid trin yr achosion o dipio anghyfreithlon sy'n digwydd ar dir cyhoeddus ac ar dir preifat yr un fath.

Roedd rhai perchnogion tir ac undebau ffermio yn ystyried ei fod yn annheg i berchnogion tir preifat ysgwyddo'r gost lawn o lanhau wedi iddynt ddioddef achos o dipio anghyfreithlon ar eu tir. Roedd nifer o'r ymatebwyr eisiau i berchnogion tir i gael cymorth i adrodd ar achosion, symud a gwaredu eu gwastraff.

Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen i berchnogion tir gael mwy o gyngor a chanllawiau, a hynny drwy gyfrwng 'Gwlad', Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Cyllid

Gydol yr ymgynghoriad, gwelwyd bod cyllid unwaith eto yn broblem. Crybwyllodd yr awdurdodau lleol bod angen adnoddau digonol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Roedd pobl yn teimlo y gallai'r pwysau ariannol gael effaith ar lefel y tipio anghyfreithlon.

Os ydym eisiau lleihau'r rhwystrau i gael gwared ar wastraff, awgrymwyd efallai y byddai angen ailddyrannu arian ac adnoddau presennol.

Prif Effeithiau

Nid yw effaith tipio anghyfreithlon ar werth amwynder a thwristiaeth, ansawdd bywyd, iechyd, mewnfuddsoddi a pharch cymunedol wedi'i fesur hyd yma. Hefyd, nodwyd na ddylai'r gostyngiad mewn achosion dros y blynyddoedd diwethaf guddio'r ffaith bod tipio anghyfreithlon yn parhau i fod yn broblem fawr mewn nifer o gymunedau difreintiedig.

Sylwadau eraill

- Canolbwyntio'n fwy ar faterion lleol
- Ymchwilio i'r rhesymau ymddangosiadol dros dipio anghyfreithlon (costau/cludiant).
- Cynllun gwobrwyo ar gyfer gwaredu gwastraff yn gyfrifol.
- Ymchwilio i'r cysylltiad rhwng strydoedd cefn a fabwysiadwyd a thipio anghyfreithlon.
- Hyrwyddo cynlluniau 'cyfrifoldeb cynhyrchwyr' ar gyfer gwneuthurwyr.
- Cyflwyno system sy'n golygu bod busnesau adeiladu yn esempt o drwyddedau gwastraff

Cwestiwn 4 – A oes gennych sylwadau pellach ar sut y gellir cyflawni'r deilliannau?

Trosolwg

Cafwyd 26 o ymatebion uniongyrchol ar gyfer y cwestiwn hwn. Ceir crynodeb o'r ymatebion isod:

Y dull partneriaeth

Mae'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn ystyried bod y dull partneriaeth yn allweddol wrth fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Crybwyllwyd llwyddiant partneriaeth *Taclo Tipio Cymru* ac awgrymwyd y dylai swyddogion yr awdurdodau lleol arwain y fenter yn fwyfwy.

Unwaith eto, pwysleisiodd yr ymatebwyr bod angen gweithio gyda pherchnogion tir preifat a gweithio tuag at sicrhau cytundeb ffurfiol ar dipio anghyfreithlon rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a pherchnogion tir preifat.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr, o blith yr awdurdodau lleol a'r cynghorau cymuned, y dylid meithrin cysylltiadau gyda landlordiaid cymdeithasol a mynd i'w fforymau lleol.

Daeth i'r amlwg hefyd ei bod yn bwysig ymgysylltu ag ysgolion a chreu cysylltiadau agosach â'r cynllun Eco-ysgolion.

Hefyd, teimlwyd bod angen inni weithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol yn Lloegr ar faterion trawsffiniol.

Crybwyllodd un ymatebydd mai'r unig ffordd y mae'r dull partneriaeth yn bosibl ar lefel llywodraeth leol yw pan fo cysondeb ar draws y 22 awdurdod lleol.

Yn olaf, daeth i'r amlwg ei bod yn bwysig inni weithio gyda'r Heddlu. Nododd un ymatebydd y byddai'n dda o beth pe bai'r Heddlu â mwy o ran, yn enwedig ar lefel leol, wrth ymchwilio i achosion o dipio anghyfreithlon ac erlyn drwgweithredwyr.

Deall maint a natur y broblem.

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bod llawer o waith ymchwil eisoes wedi'i wneud ac y dylid ceisio defnyddio hynny wrth lunio'r ffordd ymlaen. Er enghraifft, awgrymodd un ymatebydd y dylem edrych ar waith ymchwil Dr Freya St John, sy'n edrych ar ymddygiad amgylcheddol anghyfreithlon ac a gomisiynwyd gan Brifysgol Caint.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r camau gweithredu yn y strategaeth sy'n cyfeirio at waith ymchwil. Teimlwyd bod angen gwneud mwy o waith ymchwil ar y rhesymau ymddangosol dros dipio'n anghyfreithlon.

Ystyriwyd ei bod yn bwysig inni rannu unrhyw ganfyddiadau sy'n deillio o waith ymchwil gyda'n partneriaid, boed hynny'n waith ymchwil a wneir gennym ni neu gan sefydliadau allanol.

Roedd y bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r bwriad i ddeall maint y broblem, yn enwedig ar dir preifat. Pwysleisiodd y sefydliadau sy'n gweithio gyda pherchnogion tir preifat yr angen i weithio'n rhagweithiol gyda pherchnogion tir a'u cefnogi, er mwyn annog pobl i adrodd ar achosion. Gallai hyn fod yn rhan o'r cytundeb cenedlaethol arfaethedig rhwng yr awdurdodau rheoleiddiol a'r perchnogion tir preifat.

Addysg

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod addysg a chyngor yn bwysig. Yn gyffredinol, ystyriwyd y dylid cyflenwi addysg ar bob lefel gan gynnwys mewn colegau galwedigaethol ac mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Cytunwyd y dylid addysgu ar lefel leol neu ar lefel 'llawr gwlad'. Dylai ein neges am 'ddyletswydd i ofalu' gael ei anelu at fusnesau ac at y carfannau o'r gymdeithas sy'n debygol o effeithio fwyaf ar dipio anghyfreithlon.

Hefyd yn ogystal ag addysgu ar lefel leol, ac i ategu hynny, awgrymwyd y dylid darparu cynllun cyfathrebu strategol ar lefel uwch.

Darpariaeth ar gyfer gwastraff

Mynegodd nifer o'r ymatebwyr nad yw safleoedd amwynder dinesig yn hyblyg ac mae hynny'n cyfrannu at dipio anghyfreithlon. Argymhellwyd y dylai'r safleoedd hyn fod yn fwy hyblyg. Mae'r rheolau a'r rheoliadau niferus sy'n bodoli yn rhwystro nifer o ddeiliaid tai rhag gwaredu eu gwastraff yn y safleoedd hyn. Awgrymwyd y dylid eu llacio. Yn fras, dylai'r safleoedd hyn fod yn rhwyddach i'r defnyddwyr eu defnyddio.

Hefyd, soniwyd y dylid ystyried y posibilrwydd o ddarparu cyfleusterau digonol ar gyfer adeiladwyr a busnesau eraill er mwyn iddynt fedru gwaredu ac ailgylchu eu gwastraff.

Awgrymodd un o'r ymatebwyr y dylai awdurdodau lleol rannu safleoedd gwastraff er mwyn ei gwneud yn rhwyddach i'r cyhoedd eu defnyddio.

Nododd dau o'r ymatebwyr mai'r prif resymau dros dipio'n anghyfreithlon yw'r gost a'r diffyg ymwybyddiaeth yn hytrach na lefel y ddarpariaeth sy'n bodoli ar gyfer gwastraff. Roeddent yn honni mai problemau cymdeithasol yn hytrach na phroblemau'n ymwneud â'r seilwaith sy'n debygol o arwain at dipio anghyfreithlon.

Gorfodaeth

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i'r syniad o sefydlu system orfodi gyson ledled Cymru. Byddai'r ymatebwyr dan sylw yn croesawu canllawiau cenedlaethol ac roedd pawb o blaid pecyn hyfforddi ar gyfer Cymru gyfan. Roedd pobl o'r farn mai'r prif nod yw sicrhau bod y 22 awdurdod lleol yn perfformio ar lefel debyg.

Awgrymodd un ymatebwr y dylid clustnodi ardaloedd lle mae'r cyfraddau troseddu yn isel a thargedu'r ardaloedd hynny gan roi mwy o adnoddau iddynt.

Unwaith eto, awgrymwyd y dylid ystyried cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon.

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cefnogi'r syniad o sicrhau bod yr ynadon yn cael yr wybodaeth lawn fel bod modd iddynt gosbi'n briodol. Awgrymwyd y dylid cynnal adolygiad o'r canllawiau dedfrydu a gyhoeddwyd yn ddiweddar i weld a ydynt yn cael effaith ac os oes dirwyon a chosbau priodol bellach yn cael eu codi.

Cafwyd awgrymiadau eraill gan gynnwys dirymu trwyddedau cludwyr gwastraff yn awtomatig os ydynt yn euog o dipio anghyfreithlon.

Cwestiwn 5 – A hoffech chi gymryd rhan yn y gweithgorau i helpu i gyflawni'r camau sydd eu hangen er mwyn cyrraedd y deilliannau?

Trosolwg

Nododd 22 allan o'r 28 a ymatebodd y byddent yn hoffi bod yn rhan o'r gweithgorau.

Mae sefydliadau o blith y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wedi cynnig helpu a cheir cofnod ohonynt isod;

- Awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Blaenau Gwent, Ceredigion a Sir Fynwy,

- Cynghorau Cymuned Llandudoch a Gwynllŵg

- Cymdeithasau Tai Bron Afon, Clwyd Alyn, Cartrefi Cymunedol

- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (Cymru)

- Y Grŵp Cenedlaethol dros Atal Tipio Anghyfreithlon

- Cadwch Gymru'n Daclus, Dŵr Cymru, Un Llais i Gymru, Glandŵr Cymru

- Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru.

5 Ymateb Llywodraeth Cymru

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd am roi o'u hamser i gymryd rhan yn ail ran yr ymgynghoriad. Roedd yr ymateb yn dda. Cafwyd 28 o ymatebion gan amrywiaeth eang o gyrff.

Rydym falch bod dros 89% o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai'r strategaeth o gymorth mawr iawn wrth fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynllunio ar gyfer Cymru well a hynny drwy sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn gywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn gam pwysig o'r gwaith hwnnw. Er mwyn cyrraedd y nod mae'n rhaid cydlynu camau'r holl sefydliadau sy'n bartneriaid a'r cymunedau ledled Cymru. Datblygwyd y strategaeth derfynol mewn ymgynghoriad agos â'n rhanddeiliaid a thrwy weithdai i drafod a llunio'r strategaeth.

Rydym wedi nodi'r camau gweithredu ychwanegol a awgrymwyd yn yr ymatebion ar gyfer y strategaeth derfynol. Roedd y rheini'n ymwneud â gwella'r dull o adrodd ar achosion:

- Rydym wedi diwygio'r camau gweithredu fel eu bod yn cynnwys gwneud datblygiadau pellach i system *FlyMapper* a chofnodi achosion ar dir cyhoeddus a thir preifat;
- Rydym hefyd wedi cynnwys cam i fonitro lefel yr ymchwiliadau a'r erlyniadau; a
- Byddwn yn edrych ar ddangosyddion perfformiad cenedlaethol priodol.

Wrth i gyllidebau ostwng mae llai o arian ar gael, ac rydym yn cydnabod bod hynny'n ffactor. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i edrych ar ffyrdd o ailddyrannu'r adnoddau presennol a byddwn yn parhau i nodi'r arferion gorau.

Mae llawer o gefnogaeth ar gyfer creu dull cyson o orfodi yng Nghymru. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod ymchwilio i achosion o dipio anghyfreithlon yn ddyletswydd statudol ar gyfer awdurdodau lleol. Byddwn hefyd yn ystyried cyflwyno hysbysiad cosb benodedig ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon.

Rydym yn croesawu'r ymatebion cefnogol. Rydym hefyd yn croesawu'r faith bod nifer o sefydliadau'n barod i fod yn rhan o'r gweithgorau a thrwy hynny'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r camau gweithredu a chyflawni'r canlyniadau. Byddwn yn sefydlu gweithgor cymunedol a gweithgor ar ddarpariaethau gwastraff, ac yn parhau i weithio gyda'r gweithgorau gorfodi a thir preifat sy'n bodoli eisoes. Yn y gweithgorau hynny, byddwn yn edrych yn fanwl ar y camau gweithredu a awgrymwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Y camau nesaf:

- Cyhoeddi 'Cymru Ddi-dipio - Ein strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon'.
- Sefydlu'r gweithgor cymunedol a'r gweithgor ar ddarpariaethau gwastraff.

Atodiad 1

Rhestr o'r rhai a Ymatebodd i'r Ymgynghoriad

Panel Arbenigol ar Lygredd Cymru (CC)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (ALl)

Bwrdd Gwasanaethau Lleol Pen-y-bont ar Ogwr (CC)

Tai Cymunedol Bron Afon (CD)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (ALl)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Iechyd yr Amgylchedd) (ALl)

Glandŵr Cymru (CC)

Cyngor Sir Gâr (ALl)

Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CD)

Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru (CP)

Clarkson, Lynda (P)

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (CD)

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (Cymru) (CC)

Cyngor Sir Ceredigion (ALl)

Taclo Tipio Cymru (CC)

Cadwch Gymru'n Daclus (CC)

Cyngor Sir Fynwy (ALl)

NFU Cymru (U)

Y Grŵp Cenedlaethol dros Atal Tipio Anghyfreithlon (CC)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) (ALl)

Un Llais Cymru (TS)

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (CC)

Cyngor Cymuned Llandudoch (CTC)

Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU

Cyngor Bro Morgannwg (ALl)

Dŵr Cymru (SP)

Cyngor Cymunedol Gwynllŵg (CTC)

Williams, Christopher (P)

CD – Cymdeithas Dai

ALl – Awdurdod Lleol

CP – Corff Proffesiynol

CC – Corff Cyhoeddus

P – Unigolyn Preifat

SP – Y Sector Preifat

CTC – Cynghorau Tref a Chymuned

TS – Y Trydydd Sector

U – Undeb

Atodiad 2

Tabl yn Crynhoi'r Ymatebion

Enw	Prif Bwyntiau
Cymdeithasau Tai	
Clwyd Alyn Cartrefi Cymunedol Bron Afon	• Canolbwyntio'n fwy ar faterion lleol • Efallai bod pwysau ariannol yn effeithio ar dipio anghyfreithlon. Er mwyn lleihau'r rhwystrau sy'n bodoli o ran gwaredu gwastraff, mae angen ailddyrannu adnoddau. Yn benodol, lleihau'r gost o waredu eitemau mawr. Ei gwneud yn haws! • Ymchwilio i'r rhesymau ymddangosol dros dipio'n anghyfreithlon (cost/cludiant) • Ymchwilio i'r cysylltiad rhwng strydoedd cefn a fabwysiadwyd a'r cynnydd mewn tipio anghyfreithlon • Hoffai'r Cymdeithasau Tai gael eu cynnwys yn yr ystadegau ar dipio anghyfreithlon • Cynllun Gwobrwyo am waredu gwastraff yn gyfrifol • Ymgysylltu â fforymau landlordiaid lleol
Y Cyhoedd	
	• Caniatáu i fusnesau ddefnyddio safleoedd Amwynder Dinesig • Gweithio ar y cyd gyda chynllun Ysgolion Gwyrdd • Ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ddefnyddio safleoedd tipio • Ailbenodi swyddogion heddlu lleol penodol • Cyfraddau cenedlaethol safonol ar gyfer cwmnïau sgipiau – sicrhau mwy o degwch
Cynghorau Cymuned	
Llandudoch Gwynllŵg	• Dirwyon yn y fan a'r lle – hysbysiadau cosb benodedig • Mwy o wybodaeth am sut i roi gwybod am achosion • Hyrwyddo cynlluniau gan Weithgynhyrchwyr i gyfnewid hen eitemau – cyfrifoldeb y cynhyrchwyr • Gweithio mewn partneriaeth agosach â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

Perchnogion Tir Preifat	
Cymdeithas y Tirfeddianwyr Cymru NFU Cymru	• Dylai cyfleusterau gwastraff fod yn haws eu defnyddio - dull mwy hyblyg • Dylai achosion o dipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus a phreifat gael eu trin yn yr un modd. • Dylid sicrhau bod yr holl dir preifat yn cael ei gynnwys ar y gronfa ddata genedlaethol. • Dylai tir preifat gael ei gynnwys ar *FlyMapper* • Camau ymarferol i helpu ffermwyr – adrodd ar achosion, symud a chael gwared ar wastraff. • Llunio system ar y cyd rhwng yr awdurdodau lleol a pherchnogion tir • Dylai mwy o wybodaeth fod ar gael i ffermwyr - Gwlad, LlC, CNC
Awdurdodau Lleol	
Castell-nedd Port Talbot Caerffili Pen-y-bont ar Ogwr Bro Morgannwg Blaenau Gwent Ceredigion Caerffili (Iechyd yr Amgylchedd) Sir Fynwy Sir Gaerfyrddin	• Rhaid i gasglu data (*Fly Mapper)* fod yn ddyletswydd statudol • Rhaid i ymchwilio fod yn ddyletswydd statudol • Angen pecyn hyfforddi cenedlaethol • Diwygio deddfwriaeth bresennol i ganiatáu Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon • Angen diwygio'r Protocol ar dipio anghyfreithlon – perchnogion tir preifat i'w cynnwys • Gwneud adolygiad o'r pwerau dedfrydu newydd • Dirymu trwyddedau cludwyr gwastraff yn awtomatig os ydynt yn cael eu dyfarnu'n euog am dipio anghyfreithlon • Dylai awdurdodau rannu gwasanaethau – e.e. safleoedd gwastraff • Hyrwyddo llinell gymorth Cyfoeth Naturiol Cymru • Llunio ymgyrch i annog pobl i gadw eu llygaid a'u clustiau ar agor • Angen sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i roi'r strategaeth ar waith • Datblygu perthynas waith ffurfiol rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdodau Lleol a'r perchnogion tir. • Nodi ardaloedd lle mae'r cyfraddau troseddu yn uchel a'r

	cyfraddau datrys yn isel. Mae angen targedu'r ardaloedd hyn gan roi mwy o adnoddau iddynt. • Archwiliad annibynnol o Flycapture • Sicrhau bod casglu data ar *FlyMapper* yn ddyletswydd statudol • Defnyddio fforymau landlordiaid lleol • Dylid asesu cyfraddau datrys yn rheolaidd • Cyflwyno Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol priodol • Mae'r DVLA yn bartner allweddol. Dylid gwneud hynny'n glir o fewn y Strategaeth. • Mwy o addysg ynghylch y Dyletswydd i Ofalu. Dylid targedu hynny ar lefel llawr gwlad • Mae angen inni sicrhau bod pob un o'r 22 awdurdod lleol yn perfformio ar yr un lefel
Panel Llygredd Cymru	• Rhaid i ymchwiliadau fod yn statudol • Rhaid i ymchwilio fod yn ddyletswydd statudol • Mae angen pecyn hyfforddi cenedlaethol • Diwygio deddfwriaeth bresennol i ganiatáu Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon • Mae angen diwygio'r Protocol ar dipio anghyfreithlon – perchnogion preifat i'w cynnwys
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	• Cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol fel partneriaid
Glandŵr Cymru	• Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a wneir ac ystyried y posibilrwydd o gynnal cyfarfod blynyddol • Gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol yn Lloegr er mwyn mynd i'r afael â materion trawsffiniol. • Mwy o adnoddau i fynd i'r afael â materion penodol neu i gyflymu'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu
Un Llais Cymru	• Heb awgrymu camau pellach
Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU	• Llunio cynllun cyfathrebu strategol • A oes digon o adnoddau i fwrw ymlaen â'r strategaeth? • Angen cysylltu â strategaethau eraill – Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, Bil yr Amgylchedd
Dŵr Cymru	• Mwy o gefnogaeth i berchnogion tir preifat wrth

	ymchwilio • Mwy o eglurder ar y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth dipio anghyfreithlon – Protocol • Eithrio busnesau adeiladu rhag taliadau ar wastraff • Edrych ar waith ymchwil Dr Freya St John ar dipio anghyfreithlon • Dylid cyflwyno FlyMapper yn Lloegr
Cadwch Gymru'n Daclus	• Cymorth gan yr Heddlu ar bob lefel • Angen mwy o gysondeb - yn enwedig o ran gorfodi • Mwy o gyfleusterau gwastraff yn yr ardaloedd sydd eu hangen fwyaf. • Mwy o bwyslais ar dir preifat
Taclo Tipio Cymru	• Mwy o bwyslais ar addysg a newid ymddygiad • Addysgu ar bob lefel • Targedu busnesau sy'n cael effaith uniongyrchol ar achosion o dipio anghyfreithlon
Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff	• Yn gyffredinol, budd ariannol a diffyg ymwybyddiaeth sy'n cyfrannu at dipio anghyfreithlon yn hytrach na diffyg cyfleusterau • Os bydd taclo tipio anghyfreithlon yn dod yn ddyletswydd statudol, dylid sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael. • Byddai diddordeb gan y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff i gynorthwyo'r gwaith o gyflwyno pecyn hyfforddi cenedlaethol ar gyfer swyddogion gorfodi. • Mwy o swyddogion awdurdodau lleol i arwain • Gweithio mewn partneriaeth agosach gyda landlordiaid cymdeithasol.
Y Grŵp Cenedlaethol dros Atal Tipio Anghyfreithlon	• Sicrhau bod y canfyddiadau ymchwil sy'n deillio o'r camau gweithredu ar gael • Efallai y bydd perchnogion tir sy'n aelodau o'r Grŵp Cenedlaethol dros Atal Tipio Anghyfreithlon yn gallu helpu'r gweithgorau • Adolygu'r camau gweithredu • Gweithio ar draws ffiniau